CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND




# Gweithio mewn Partneriaeth

Gwersi o’r Drydydd Sector yng Nghymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Beth yw gweithio mewn partneriaeth? | 4 |
| Manteision a Heriau | 5 |
| Prif wersi ar gyfer cylch oes partneriaeth | 7 |
| Gwersi allweddol i'r Gronfa | 10 |
| Camau nesaf | 12 |


**Dyma ddogfen ryngweithiol.**

Crwydrwch drwy'r gwahanol adrannau gan ddefnyddio'r dolenni yn y cynnwys a'r botymau ar waelod pob tudalen.

# Cyflwyniad

Mae gweithio mewn partneriaeth bellach yn gyffredin ar draws y drydydd sector yng Nghymru. Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (Y Gronfa) yn mynd ati i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth trwy ei hariannu pan fo'n synhwyrol i wneud hynny, ac mae'r cydweithio hyn yn aml yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar gymunedau. Roedd tair o raglenni cyfredol y Gronfa yn gofyn am bartneriaethau er mwyn cyflwyno ceisiadau am ariannu: **Meddwl Ymlaen, Taclo Digartrefedd a Chamau Cynaliadwy: Gyrfaoedd Gwyrdd**.

Mae'n anochel fod gweithio mewn partneriaeth yn dod a rhai heriau a rhwystrau. Comisiynodd y Gronfa'r Funding Centre i ymchwilio i effaith gweithio mewn partneriaeth ar ein deiliaid grantiau i gael gwell dealltwriaeth o'r agweddau a'r ymddygiadau cysylltiedig, sut mae llwyddiant yn edrych mewn partneriaethau, a sut y gellir mynd i'r afael â'r heriau cyffredin. Mae'r Gronfa yn defnyddio'r ymchwil hwn i lywio'r gefnogaeth a'r cyngor a gynigir i sefydliadau ar weithio mewn partneriaeth i'w helpu i gael yr effaith fwyaf bosibl.

Mae'r grynodeb hon yn amlygu prif ganfyddiadau'r ymchwil. Mae'n diffinio gweithio mewn partneriaeth, ystyried y manteision a'r anfanteision, beth i'w wneud a beth i beidio â'i wneud, ac yn cynnig rhai gwersi i'r Gronfa.



Taclo Digartrefedd

# Beth yw gweithio mewn partneriaeth?

Diffiniodd yr ymchwil weithio mewn partneriaeth fel unrhyw fath o gydweithio. Roedd hyn yn caniatáu iddynt archwilio ystod eang o bartneriaethau o wahanol fathau, maint, sector a lleoliad.

Fe wnaeth hefyd ystyried partneriaethau ffurfiol ac anffurfiol:

### Partneriaethau ffurfiol

Partneriaethau ffurfiol yw pan mae dau neu fwy o sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd dan gytundeb partneriaeth ffurfiol. Pan fo'r Gronfa yn gofyn am weithio mewn partneriaeth fel rhan o grant, yna mae cytundeb partneriaeth wedi'i llofnodi yn amod y grant.

### Partneriaethau anffurfiol

Partneriaethau anffurfiol yw unrhyw fath o gydweithio rhwng dau neu fwy o sefydliadau sy'n digwydd heb gytundeb partneriaeth sy'n eu clymu i'w gilydd.




Clwb Rygbi Bethesda

# Manteision a Heriau

## Manteision



**75%**

**o'r ymatebwyr oedd yn ffafriol am weithio mewn partneriaeth**

A'r tri ymateb ddaeth uchaf yn yr arolwg o ran y prif fanteision oedd:

- cymunedau/buddiolwyr yn rhan o'r prosiect
- cymorth a gwasanaethau wedi'u hintegreiddio/plethu
- perthnasoedd sy'n parhau yn y tymor hir trwy gydweithio, rhannu gwybodaeth ac atgyfeiriadau pellach.

Archwilir manteision eraill gweithio mewn partneriaeth isod.

### Rhannu gwybodaeth ac adnoddau

Gall gweithio mewn partneriaeth gryfhau sgiliau ac arbenigedd trwy rannu gwybodaeth a phrofiad rhwng partneriaid. Mae hyn yn agor drysau i ddysgu newydd a chyfleoedd i dyfu nad oedd ar gael cyn hynny.

**Rhannu gwybodaeth, rhannu arbenigedd, rhannu cysylltiadau, rhannu rhwydweithiau – rydym yn manteisio o ddifri o allu elwa ar yr arbenigedd, gwybodaeth a'r profiad hwnnw.**

Mae'n caniatáu i adnoddau gael eu rhannu rhwng sefydliadau hefyd. Gall hyn fod o gymorth mawr i sefydliadau nad oes gan y gallu neu'r capasiti i ymgymryd â phrosiectau penodol ar eu pen eu hunain. Mewn rhai achosion, gall gwasanaethau partneriaid integreiddio gyda'i gilydd, gan ganiatáu iddynt ddatblygu ac ehangu mewn ffyrdd na fyddai'n bosibl yn annibynnol.

### Cyflawni'n strategol

Mae cydweithio'n hyrwyddo cyflawni'n strategol. Mae partneriaethau'n caniatáu i sefydliadau ddeall sgôp a gallu ei gilydd a thrwy hynny ddod i ddealltwriaeth o sut all partneriaid ymuno â'i gilydd i gael yr effaith fwyaf bosibl. Gall hyn arwain at fwy o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, gan wella cyrhaeddiad ac effaith y prosiect. Yn ei dro, gall hyn ddod â manteision ariannol i'r sefydliadau mewn golwg, wrth leihau'r risg o ddyblygu.

### Cyfleoedd ariannu ychwanegol

Gyda nifer gynyddol o gyfleoedd ariannu yn gofyn am weithio mewn partneriaeth neu'n annog hynny i gael mynediad i grantiau, mae ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth yn creu cyfleoedd ariannu ychwanegol. Mae sefydliadau sy'n dewis mynd ar eu trywydd eu hunain yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ariannu eu gwaith.

### Rhwydweithio

Mae partneriaethau, ffurfiol neu anffurfiol, yn caniatáu i sefydliadau feithrin perthnasoedd gyda'i gilydd. Maent yn datblygu eu rhwydweithiau i gyrraedd sefydliadau, cydweithwyr a buddiolwyr newydd. Mae hyn o fantais gan eu bod yn ennill gwybodaeth ac arbenigedd ac mae hynny'n helpi i wella eu henw da, gan greu cyfleoedd i weithio ar y cyd yn y dyfodol yn y broses.

### Gwella'r modd y darperir gwasanaeth

Cytunodd nifer o ymatebwyr fo partneriaethau'n gwella'r modd y darperir gwasanaeth trwy gynyddu ansawdd ac ehangder y gwasanaeth sydd ar gael a gwella canlyniadau i fuddiolwyr:

> **Gallent [Partneriaethau] wella ansawdd gwasanaethau a dod â sefydliadau gwahanol at ei gilydd i gynnig ystod ehangach o gefnogaeth i unigolion. Gallent hefyd wella mynediad i gymorth arbenigol.**

## Heriau

Er bod nifer o bethau cadarnhaol am weithio mewn partneriaeth, mae hefyd yn dod â'i heriau. Gellir goresgyn yr heriau hyn o'u rheoli'n iawn, ond gallen nhw beri risg os nad ydynt yn cael eu rheoli'n iawn. Weithiau gallen nhw fod yn ddigon difrifol i atal sefydliadau rhag gweithio mewn partneriaeth yn gyfan gwbl. Ymddengys mai'r ddwy her fwyaf yw capasiti ac amser.

### Capasiti

Nododd ymatebwyr ddiffyg capasiti ac adnoddau fel prif her gweithio mewn partneriaeth. Mae ceisiadau partneriaeth yn gofyn am ymrwymiad o ran amser a chost, ac mae'r diffyg gallu i roi'r adnoddau tuag at hyn yn golygu fod nifer o sefydliadau yn y drydydd sector yn ei chael yn anodd. Yn y sefyllfa waethaf bosibl, gallent roi staff dan bwysau gormodol gyda llwythi gwaith wedi cynyddu a sefydliadau ar eu colled yn ariannol mewn ffordd os nad yw cais yn llwyddiannus. Mae sefydliadau llai sydd â llai o gapasiti yn aml yn fwy agored i niwed yn y sefyllfaoedd hyn. Gall hyn ddarbwyllo sefydliadau llai rhag cymryd rhan mewn partneriaethau, gan adael y rhai mwy sy'n gallu fforddio cymryd mwy o risg i allu elwa ar y manteision â ddônt.

### Amser

Mae datblygu partneriaethau'n cymryd amser, fel y mae paratoi a chyflawni prosiect partneriaeth. Mae'r amser cyfyngedig rhwng lansio rhaglen a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yn gallu golygu fod angen gwneud llawer iawn o waith mewn cyfnod byr o amser. Mae hyd y cyfnod ariannu a gynigir gan y Gronfa hefyd yn ystyriaeth arall; nid yw ariannu tymor byr yn rhoi amser digonol i ffurfio perthnasoedd ac arferion cadarn sy'n golygu nad yw partneriaethau o'r fath yn gwireddu eu llawn botensial.

Heriau eraill a nodwyd gyda gweithio mewn partneriaeth oedd:

**Cymhlethdod** – Gall cynnal partneriaethau fod yn gymhleth, yn enwedig rheoli perthnasoedd sy'n gallu tynnu'r ffocws oddi ar gyflawni'r prosiect ar adegau.

**Gwrthdaro** – Pan nad yw disgwyliadau, rolau, rhwymedigaethau a llywodraethu wedi cael eu trafod yn gynnar a'u cytuno arnynt, gall hyn arwain at anghytuno yn nes ymlaen, yn enwedig ynghylch gwneud penderfyniadau.

**Risg** – Os yw gweithio mewn partneriaeth ffurfiol yn mynd o'i le, gall hyn niweidio gweithrediadau'r sefydliad ei hunan ac effeithio ar eu henw da.

**Ymddiriedaeth** – Mae cystadleuaeth yn rhemp rhwng sefydliadau trydydd sector wrth iddynt gystadlu am ariannu. Gall hyn greu hinsawdd o ddiffyg ymddiriedaeth gan wneud sefydliadau'n amharod i gydweithio â'i gilydd.

# Prif wersi ar gyfer cylch oes partneriaeth

Mae gan gylch oes partneriaeth gamau niferus gwahanol, ac mae'r adran hon yn ystyried y gwersi ar gyfer pob cam yn y broses partneriaeth. Gallai'r gwersi a amlygir ar gyfer pob cam gyfrannu tuag at lwyddiant eich partneriaeth yn ei chyfanrwydd.

## Y dechrau

Mae perthynas organig, anffurfiol yn ffordd dda o ddechrau partneriaeth. Mae dechrau'n anffurfiol yn rhoi amser gwerthfawr a hyblygrwydd sy'n agor drysau i brofi gwahanol ffyrdd o weithio, ac yn rhoi'r rhyddid i fethu heb ganlyniadau. Mae hyn yn caniatáu i ddysgu'r arfer gorau, beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio, a datrys unrhyw broblemau'n gynnar. Gall partneriaid feithrin ymddiriedaeth, a sefydlu dealltwriaeth glir o'i gilydd hefyd. Mae hyn yn creu sylfaen cadarn i bartneriaethau ddatblygu a thyfu i mewn i drefniant ffurfiol yn y dyfodol.

## Meithrin ffurfioldeb

Unwaith mae gan y partneriaid ddealltwriaeth gadarn o'i gilydd a'r ymarfer gorau, dyma'r amser gorau i ddechrau meithrin ffurfioldeb. Fodd bynnag, cyn llofnodi unrhyw gontractau neu gytundebau, mae nifer o bethau i'w hystyried:

- Crëwch **eglurder** rhwng yr holl bartneriaid ar y gwerthoedd cyffredin a phwrpasau'r bartneriaeth, a rolau a disgwyliadau pob partner. Mae tryloywder yn allweddol i greu ymddiriedaeth ac atal unrhyw ddryswch neu wrthdaro a allai lesteirio effeithiolrwydd y bartneriaeth.
- Aseswch yr **adnoddau, capasiti ac amser** sydd ar gael i weld a yw'r cynigion arfaethedig yn realistig. Mae'n hawdd rhoi amcan rhy isel o ofynion partneriaeth, felly mae'n hanfodol i werthuso a sicrhau eich bod wedi'ch paratoi'n llawn.
- Sicrhewch fod y bartneriaeth o **faint hawdd ei thrin**, gyda phob partner yn cael rôl glir. Mae gormod o bartneriaid yn gor-gymhlethu'r broses ac yn creu risg diangen.
- Mae **partneriaid arweiniol** yn hanfodol i lwyddiant partneriaeth a dylid eu dewis yn ofalus. Mae angen iddynt fod â'r sgiliau, profiad, capasiti a'r ethos cywir. Mae hyn yn bwysig gan mai'r nhw sy'n sicrhau fod popeth ar y trywydd cywir, fod y cyflawni'n rhedeg yn esmwyth, a bod pob partner yn cyfrannu i ymdrech ar y cyd y prosiect. Dylai partneriaid arweiniol gael eu cymell hefyd. Maen nhw'n cyfrannu sgiliau, adnoddau ac arian ychwanegol sylweddol, felly heb gymhelliant ni fydd sefydliadau am arwain. Mae'n bwysig eu cymell er mwyn gwneud y trefniant yn deg ac yn werth chweil ac i annog y sefydliad cywir i ddod ymlaen.
- Crëwch **gynllun fframwaith partneriaeth** clir gan gynnwys y weledigaeth yn ei chyfanrwydd, prif feysydd cyfrifoldeb, rhwymedigaethau, dyraniadau cyllidol, prosesau ac unrhyw fanylion pwysig eraill. Mae hyn yn rhoi strwythur a strategaeth synhwyrol sy'n sylfaen i'r bartneriaeth.

## Ar ôl Ffurfioli

Ar ôl llofnodi cytundeb partneriaeth ffurfiol a derbyn grant, mae yna nifer o gamau i'w cymryd i sicrhau llwyddiant pellach y bartneriaeth:

- Mae **cyfnod paratoi** yn ddefnyddiol i gael trefn. Mae hyn yn gyfnod dynodedig i drefnu'r tasgau gweinyddol, systemau a phrosesau angenrheidiol cyn dechrau cyflawni'r prosiect. Mae recriwtio, cyllid, GDPR, TG a llywodraethu yn cymryd amser ac mae problemau'n anochel. Mae cyfnod paratoi yn chwynnu'r materion

hyn yn gynnar, gan arwain at gyflawniad prosiect mwy effeithiol sy'n llai tebygol o gael ei effeithio gan broblemau gweinyddol.

- Mae'n hanfodol i bartneriaeth ddysgu a thyfu felly dylid rhoi amser i **werthuso** o'r cam cyntaf. P'un ai yw hyn yn bartner penodol sy'n ymroddedig i werthuso neu'n werthuswr allanol annibynnol, mae gwerthusiadau yn nodi beth sy'n gweithio'n effeithiol a lle mae angen gwella. Mae hyn yn gwella ansawdd y prosiect, gan gael yr effaith fwyaf bosibl.
- Mae **cyfathrebu cadarn a gonest** yn hanfodol i gynnal partneriaeth yn llwyddiannus gan ei fod yn caniatáu i bartneriaid gael yr eglurder angenrheidiol ar gyflawni'r prosiect a thu hwnt. Dylid sicrhau fod amlder y cyfathrebu yn taro deuddeg ym mhob partneriaeth. Dylai fod yn ddigon rheolaidd, fel bod pob partner yn wybodus ac yn deall ei gilydd ond ddim yn rhy aml nes ei fod yn ddiangen ac yn llesteirio cynnydd. Dylid ystyried cyfarfodydd wyneb yn wyneb i gynnal perthnasoedd cadarn rhwng partneriaid a hyrwyddo momentwm.
- Mae arianwyr eisiau'r gorau i'r partneriaethau a'u prosiectau ac maen nhw'n darparu cefnogaeth amhrisiadwy i helpu gydol y broses. Dyna pam ei bod yn bwysig i chi gael **perthynas dda gyda'ch ariannwr**. Maen nhw'n rhoi arweiniad a chefnogaeth, yn helpu i lywio trwy unrhyw heriau a sicrhau fod eich prosiect ar y llwybr i lwyddiant.

## Sefydliadau bychain

Mae gweithio mewn partneriaeth yn gallu peri heriau ychwanegol i sefydliadau llai, ond ni ddylai hyn wneud gweithio mewn partneriaeth yn anghyraeddadwy iddynt. Dyma rai ystyriaethau penodol y dylai sefydliadau llai bod yn ymwybodol ohonyn.

- Mae gweithio mewn partneriaeth yn gofyn am **sgiliau a chapasiti** penodol. Er y gall hyn gael ei weld fel rhwystr i sefydliadau llai, gellir ei ystyried yn gyfle gwych i dyfu a datblygu. Gall partneriaid rannu arbenigedd a safbwyntiau, gan agor sefydliadau llai i gyfleoedd dysgu newydd sy'n gallu rhoi ffyrdd newydd o feddwl, gweithio a chyflawni. Hyd yn oed os yw trefniant ffurfiol yn rhy frawychus neu allan o gyrraedd, ystyriwch bartneriaeth anffurfiol sy'n gallu rhoi cyfleoedd dysgu a rhwydweithio pwysig.
- Mae anghydbwysedd pŵer yn broblem gyffredin i sefydliadau bychain, yn enwedig wrth weithio gyda rhai mwy, a mwy profiadol. Mae sefydliadau llai wedi nodi fod sefydliadau mwy yn eu defnyddio i 'dicio'r bocs i arianwyr' ac nad ydynt yn cael unrhyw wir ymwneud â'r broses bartneriaeth. Rhaid i bob sefydliad, mawr neu fach, fod yn ymwybodol o'r **ddeinamig pŵer** sydd ar waith. Mae angen i bartneriaid mwy, neu arweiniol, gymryd rôl weithredol wrth oresgyn hyn, gan wneud ymdrech ymwybodol i greu diwylliant partneriaeth cadarnhaol. Mae angen i hyn gynnwys parch, tegwch a thryloywder fel bod lleisiau sefydliadau llai yn cael eu clywed yn y bartneriaeth.

> **"Mae'r deinameg pŵer rhwng sefydliadau mwy a sefydliadau llai bob amser yn anodd – felly rhaid cael ymddiriedaeth a thryloywder."**

# Gwersi allweddol i'r Gronfa



**83%** o'r ymatebwyr a weithiodd ar bartneriaeth a gefnogwyd gan y Gronfa gafodd brofiad cadarnhaol, ond dim ond **45%** deimlai fod y Gronfa yn rhoi disgwyliadau clir am weithio mewn partneriaeth, gan amlygu lle i wella. Gwnaeth yr ymchwil nifer o argymhellion i'r Gronfa yn ymwneud â'i dull.

## Canllawiau a Hyfforddiant

Dylid datblygu canllawiau clir i sefydliadau sydd eisiau datblygu prosiectau partneriaeth. Cyfeiriodd rhanddeiliaid at ddarparu templedi, canllawiau 'sut i wneud', astudiaethau achos a 'chwestiynau cyffredin' fel posibiliadau, ac mae'n amlwg yr hoffai sefydliadau (yn enwedig rhai llai) fwy o help.

Dylai'r Gronfa archwilio ei chapasiti i ddarparu mwy o gefnogaeth i sefydliadau ynghylch datblygu a chyflawni partneriaethau effeithiol. Mae hyn yn golygu oblygiadau o ran adnoddau, felly byddai'n rhaid i'r Gronfa edrych ar beth sy'n ymarferol bosibl gan y bydd yn rhoi mwy o ofynion ar weithwyr y Gronfa.

Mae esiamplau o sut y galli'r Gronfa hwyluso mwy o ganllawiau/hyfforddiant yn cynnwys:

**Meithrin sgiliau a chapasiti** – Hyfforddiant ar swyddogaethau penodol, megis Cyllid, TG, GDPR, Llywodraethu ayyb os yw sefydliad yn ddibrofiad yn y maes.

**Graddfa a maint** – Does dim 'un dull sy'n addas i bawb' sy'n hawdd i'w gymhwyso yma. Fodd bynnag, dylid datblygu canllawiau bras o ran disgwyliadau maint partneriaeth ar gyfer pob rhaglen. Gall hyn amrywio rhwng rhaglenni yn dibynnu ar anghenion penodol.

**Eglurder cyffredinol** – Mwy o wybodaeth ar ddisgwyliadau'r Gronfa yn ogystal â beth sy'n gwneud partneriaeth yn effeithiol, a chefnogaeth gryfach gan y Gronfa ar bob cam o'r bartneriaeth.

**Ymddiriedaeth a pherthnasoedd** – gwybodaeth ychwanegol am sut i gynnal ymddiriedaeth a pherthnasoedd.

Dylai'r Gronfa hefyd barhau i archwilio beth mae sefydliadau cymorth ac isadeiledd eraill yn ei wneud yn y maes hwn, ac os gallai gweithio mewn partneriaeth gyda nhw fod yn ffordd addas o gefnogi deiliaid grantiau ac ymgeiswyr.

## Partneriaethau o fewn Rhaglenni Ariannu

Nid oes unrhyw awydd i roi mandad i bob partneriaeth ar draws holl raglenni'r Gronfa. Byddai'r mwyafrif o sefydliadau yn cefnogi hynny pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny, ond nid ydynt yn teimlo fod gwneud hynny'n ofyniad cyson yn hyfyw nac yn effeithiol.

Mae hyd rhaglenni ariannu a lefel y grant sydd ar gael yn ffactorau sy'n dylanwadu a yw sefydliadau yn teimlo fod dull partneriaeth yn addas ac 'werth y buddsoddiad'. Mae rhaglenni hirach i'w gweld yn gweddu yn well i'r dull partneriaeth; dylai'r Gronfa ddylunio rhaglenni i sicrhau eu bod yn dwyn digon o ffrwyth i wneud y bartneriaeth yn hyfyw ac effeithiol. Gan fod disgyblaethau fel cyd-gynhyrchu yn cymryd rhagor o amser i fod yn effeithiol, bydd rhaglenni ariannu hirach yn rhoi'r gofod i hyn ddigwydd.

## Ariannu ar gyfer Partneriaethau

Mae cyllid datblygu yn cael ei ystyried yn gyffredin fel modd pwysig o helpu sefydliadau i oresgyn y costau ychwanegol a'r pwysau ar adnoddau sy'n gysylltiedig â datblygu ceisiadau partneriaeth cymhleth. Dylid gwneud pob ymdrech i barhau ac ehangu'r ddarpariaeth hon, yn enwedig ar gyfer sefydliadau llai sy'n wynebu rhwystrau a heriau ychwanegol.

## Dealltwriaeth ac Eglurder gan y Gronfa

Dylai'r Gronfa gydnabod fod gweithio mewn partneriaeth yn ychwanegu cymhlethdod, heriau a chost. Mae rhanddeiliaid am i'r Gronfa fod yn hyblyg yn y ffordd y maen nhw'n ystyried partneriaethau a derbyn y gall bod modelau gwahanol i'w cymhwyso. Dylai'r Gronfa ddarparu gofod i ddysgu a allai eu helpu nhw i ddatblygu'r dulliau sy'n gweithio orau iddyn nhw. Gallai pŵer y Gronfa i ddwyn pobl ynghyd helpu i wneud i hyn ddigwydd a dylid defnyddio'r rôl arweiniol hon i gefnogi sefydliadau trwy arloesi a galluogi rhannu dysgu.

Mae yno hefyd awydd i ddysgu mwy am sut mae partneriaeth effeithiol yn edrych, ac i groesawu dulliau arloesol. Dylai'r Gronfa weithio gyda rhanddeiliaid i nodi arfer effeithiol ac aneffeithiol a rhannu hynny gyda sefydliadau trwy astudiaethau achos, a darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu.

Gan fod eglurder am rôl sefydliadau mewn partneriaethau wedi ei nodi fel ffactor llwyddiant, dylai'r Gronfa roi prawf addas ar gynigion i sicrhau fod rolau wedi cael eu hystyried yn llawn ac y manylwyd arnynt. Roedd gwneud yn siŵr fod gan bartneriaid rolau ystyrlon wedi eu hariannu ar brosiectau yn cael ei weld fel ffordd dda o sicrhau ymrwymiad parhaus yn y broses partneriaeth.

## Ymchwil Pellach

Gallai ymchwil manwl pellach fod yn ddefnyddiol i archwilio sut i alluogi cydweithio mewn, a gyda, gwahanol sectorau/is sectorau. Gellid ehangu ar rai o'r themâu a nodwyd yn yr adroddiad hwn a gallai'r gwaith adnabod porth geidwaid a galluogwyr allweddol, strwythurau rhwydweithio sy'n bodoli eisoes a chyfleoedd a chyfyngiadau sy'n benodol i sectorau.


Tumble Family Centre

# Camau nesaf

Mae'r Gronfa yn dechrau ystyried ei hymateb. Mae hi'n rhannu canfyddiadau'r ymchwil gyda chynulleidfaoedd allanol trwy'r adroddiad cryno hwn a chyfres o flogiau, digwyddiadau rhithwir, ac ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo trafodaeth ehangach â'r drydydd sector, arianwyr a chyrff cyhoeddus eraill.

Bydd y Gronfa'n ystyried y canfyddiadau wrth ddatblygu rhaglenni yn y dyfodol ac yn gwneud penderfyniadau gwybodus i sicrhau fod partneriaethau ond yn ofynnol lle bo hynny'n angenrheidiol, gan roi sail resymegol glir i ymgeiswyr, fel bod eglurder ar bwrpas y bartneriaeth.




African Community Centre

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

Comisiynwyd y ymchwil hon gan sefydliad allanol:

the funding centre

E-bost: hello@fundingcentre.org.uk